Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Plismona** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Gynadledda SCHTh** |
| **Dyddiad:** | **26 Mawrth 2019** |
| **Amser:** | **09:00 – 11:00** |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (PS)<br>Y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro Vicki Evans (PGC/DD) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (CC)<br>Y Rhingyll Dros Dro Stuart Davies, Swyddog Staff (SD)<br>Tracey Hawthorne, Cydweithio (TH) |
| **Ymddiheuriadau:** | Y Prif Gwnstabl Mark Collins (PG)<br>Beverley Peatling, Prif Swyddog Ariannol (PSA)<br>Mair Harries, SCHTh (MH) |

| **CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 12/03/2019** | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **Statws** |
| **PB 2401** | **Cynnwys symudiadau gweithlu adolygol yn yr adroddiad ar y gweithlu ar gyfer y Bwrdd Plismona, gan gynnwys data lleol a chenedlaethol.** | **Yn parhau** |
| **PB 2402** | **Cynnwys hanes ariannu mewn perthynas â swyddogion sy'n cael eu hariannu ar y cyd a swyddogion sy'n cael eu hariannu'n rhannol yn yr adroddiad AD ar gyfer y Bwrdd Plismona.** | **Yn parhau** |
| **PB 2403** | **Y PSA a'r CC i drafod cydweithio y tu allan i gyfarfod y Bwrdd Plismona.** | **Yn parhau** |
| **PB 2404** | **Ystyried llywodraethu a rheolaeth ariannol o brosiectau cydweithredol mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona yn y dyfodol.** | **Yn parhau** |
| **PB 2405** | **SC i rannu data am absenoldebau salwch hirdymor ac absenoldebau salwch tymor byr yn yr adroddiad AD ar gyfer y Bwrdd Plismona.** | **Yn parhau** |
| **PB 2406** | **SC i adolygu'r absenoldebau salwch amrywiol yn nata salwch yr Heddlu o Ion 2018 – Rhag 2018.** | **Yn parhau** |
| **PB 2407** | **Rhoi'r ffeithlun a rannwyd ymysg aelodau'r heddlu i'r PS.** | **Wedi'i gwblhau** |

| | | |
|---|---|---|
| **PB 2408** | **Yr Heddlu i ystyried Cynllun Cyflogwyr Maethu-gyfeillgar Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro yng nghyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor Ymgynghori a Negodi.** | **Yn parhau** |
| **PB 2409** | **Y PS i sicrhau y rhoddir sylw priodol i'r cytundeb gan y cyfryngau a roddwyd i'r CHTh.** | **Wedi'i gwblhau** |
| **PB 2410** | **SD i roi gwybod i'r Pennaeth Dalfeydd am sylwadau cadarnhaol ymwelwyr annibynnol â dalfeydd SCHTh.** | **Yn parhau** |
| **PB 2411** | **MH i siarad gydag Ian Williams er mwyn trefnu cyfarfod gyda'r PSA cyn y gyfres o gyfarfodydd wythnos nesaf sy'n ymwneud â chyllid.** | **Wedi'i gwblhau** |

## 2. Cofnodion Cyfarfodydd Blaenorol

Derbyniodd y Bwrdd gofnodion y cyfarfod diwethaf fel adlewyrchiad gwir a chywir o'r drafodaeth.

## 3. Diweddariad y Prif Gwnstabl

### Diweddariadau Gweithredol

Diweddarodd y DBG/DD y Bwrdd ynghylch nifer o faterion gweithredol, gan gynnwys 9 ymosodiad ar swyddogion heddlu ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd Plismona (BP), ymateb cadarnhaol swyddogion yn ystod protest a oedd wedi'i drefnu yn Noc Penfro ar 23 Mawrth, a'r cynllun diogelu a osodwyd o gwmpas unigolyn sy'n agored i niwed yn Sir Gaerfyrddin yn dilyn gweithgarwch llinellau cyffuriau rhagweithiol gan HDP, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny. Holodd y CHTh pa un ai a oedd cyhuddiadau Caethwasiaeth Modern yn cael eu dwyn yn erbyn unigolion sy'n cynnwys plant mewn gweithgarwch masnachu cyffuriau drwy linellau cyffuriau, a dywedwyd wrtho fod cyhuddiadau Caethwasiaeth Modern yn cael eu gwneud yn achos yr unigolyn bregus yng Nghaerfyrddin.

Dywedwyd wrth y BP fod Ymgyrch Darwen, sy'n gweithio i ddiogelu defnyddwyr y ffyrdd, wedi'i lansio ar draws yr ardal heddlu ar 23 Mawrth. Roedd pawb yn flin bod y lansiad yn cyd-fynd â marwolaethau dau feiciwr modur yn ystod y penwythnos. Dywedodd y PGC/DD bod Rheolwr Llywodraethu a Chynllunio HDP wedi cael y dasg o ddiweddaru Adroddiad Perfformiad yr Heddlu mewn perthynas â gwrthdrawiadau traffig y ffyrdd er mwyn adlewyrchu gwaith parhaus yn y maes.

Dywedodd y PGC/DD bod gwerthusiad o gynllun brysbennu Iechyd Meddwl HDP wedi'i gynnal gan Athro o Brifysgol Abertawe sydd â phrofiad o'r pwnc.

**Diweddariadau Sefydliadol**

Dywedodd y PGC/DD fod un aelod o staff yr heddlu wedi'i wahardd o'r gwaith ar hyn o bryd. Mewn Byrddau Arolygwyr diweddar, roedd 4 o'r 7 unigolyn a gafodd eu cyfweld ar gyfer y rôl Arolygydd yn llwyddiannus.

Yn dilyn sgyrsiau a gynhaliwyd y tu allan i'r BP, holodd y PS am y sefyllfa mewn perthynas â fetio, a pha un ai a oedd unrhyw dagfa. Nid oedd y PGC/DD yn ymwybodol o unrhyw broblemau, ond dywedodd y byddai'n rhoi diweddariad.

**Cam Gweithredu: Y PGC/DD i adolygu tagfa tîm fetio HDP.**

## 4. Diweddariad y CHTh

### Lleol

Diweddarodd y CHTh y Bwrdd ynglŷn â'i gyfarfodydd parhaus gyda'r Prif Uwch-arolygydd Steve Cockwell a Marie McAvoy, Rheolwr y Prosiect Teledu Cylch Cyfyng (TCC), ac estynnodd ei ddiolch i'r ddau am eu cymorth a'u gwaith parhaus. Canmolodd y CHTh Marie McAvoy yn arbennig am ei gwaith ar 23 a 24 Mawrth pan archwiliodd ffilmiau TCC yn dilyn dau ymosodiad o fewn yr ardal heddlu. Nododd y CHTh fod Marie McAvoy'n cadw cofnod o fanteision busnes TCC.

Dywedodd y CHTh hefyd ei fod yn cynnal Diwrnod Ymgysylltu Cymunedol yn Aberteifi ar 29 Mawrth, ac y byddai'n ymweld â Chadetiaid Heddlu Llanelli nos Fawrth 26 Mawrth.

### Cenedlaethol

Dywedodd y CHTh y byddai'n mynd i gyfarfod Gweithgor Trawsbleidiol Cymru Gyfan ar 27 Mawrth.

Cafwyd trafodaeth fer ynghylch adroddiad a gyhoeddwyd ar bolisi Llywodraeth Cymru ar daro plant, a'i effaith ehangach ar unigolion sydd wedi'u cyhuddo o daro eu plant.

Trafodwyd yr ymrwymiad carbon isel a wnaed gan Brif Weinidog Cymru'r wythnos flaenorol yn dilyn trafodaeth a gafwyd o'r blaen yn un o gyfarfodydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Sir Gaerfyrddin, lle'r oedd y PS yn bresennol. Dywedodd y PS fod y BGC nawr yn edrych ar ei holl bartneriaid, gyda golwg ar gydweithio ar brosiectau gwyrdd. Dywedodd y CHTh fod Adran Ystadau HDP wrthi'n edrych ar gyfleoedd ar gyfer lleihau ôl troed carbon HDP, gan gynnwys paneli solar a goleuadau

LED. Er y byddai'n costio tua £20,000 i osod goleuadau LED, byddai HDP yn ennill yr arian hwnnw yn ôl o fewn 2 flynedd drwy'r arbedion a gyflwynir gan y goleuadau hyn.

**Cam Gweithredu: Y CHTh i ymgysylltu â'r Cyfarwyddwr Ystadau mewn perthynas â dewisiadau cynaliadwy.**

## 5. Materion i'w Trafod

### a) Cydweithio

Rhoddodd TH gyflwyniad ar heddluoedd Cymru'n cydweithio, gan esbonio ei bod wedi'i secondio i dîm Cymru gyfan fel rhan o'i rôl gyda HDP i weithio ar 13 prosiect sydd ar waith ers mis Hydref 2017, gyda'r gwaith yn dod i ben ym mis Hydref 2019. Dywedodd TH fod y 13 prosiect y cyfeiriwyd atynt yn ymwneud â gweddnewid y gweithlu o fewn y gwasanaeth heddlu.

Dywedodd TH fod 6 o'r 13 prosiect yn gysylltiedig â'r gwaith a gynhaliwyd gan y Coleg Plismona a Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu. Mae un o'r prosiectau'n canolbwyntio ar delerau ac amodau ar gyfer staff yr heddlu. Nodwyd fod gan y pedwar heddlu yng Nghymru gytundebau lleol gwahanol. Dywedodd TH fod tri chynllun gwerthuso swydd yng Nghymru ar hyn o bryd, gyda Heddlu Dyfed-Powys a Heddlu Gwent yn defnyddio'r un cynllun. Awgrymodd y CHTh ei fod yn bwysig cyfuno'r cytundebau hyn er mwyn cael un cynllun gwerthuso swydd ar draws y pedwar heddlu. Dywedodd TH fod cytundebau ar gyfer y ffordd y dylai'r gwaith ddatblygu wedi'u sefydlu yn ystod diwrnod pennu gweledigaeth ar gyfer plismona Cymru gyfan yn 2018, a'u bod yn cynnwys cyfarwyddyd i TH graffu ar gytundebau unigol y pedwar heddlu er mwyn creu pumed cytundeb sy'n ystyried elfennau'r pedwar cytundeb arall. Cychwynnodd gwaith gyda'r undebau ar 25 Mawrth ar gyfer ystyried y pumed cytundeb arfaethedig.

Dywedodd y CHTh y byddai'n fuddiol cael mewnbwn pellach gan TH yng Ngrŵp Plismona Cymru Gyfan (GPCG).

**Cam Gweithredu: TH i fynd i gyfarfod GPCG yn y dyfodol.**

Dywedodd TH mai egwyddor y prosiect oedd galluogi staff mewn unrhyw heddlu yng Nghymru i drosglwyddo o rôl mewn un heddlu i'r un rôl gyda heddlu arall, ac ar yr un pryd, trosglwyddo'r un cyflog, profiad a manteision. Tynnodd y CHTh sylw at awydd Llywodraeth Cymru i ddatblygu un gwasanaeth cyhoeddus a fyddai'n galluogi staff i drosglwyddo'n ddi-fwlch rhwng y gwasanaethau.

Dywedodd TH ei bod hi wedi sefydlu e-recriwtio yn ei rôl flaenorol, a bod hynny bellach wedi'i gyflwyno dros Gymru gyfan. Mae hyn wedi arwain at well cysondeb o ran data a chyfleoedd ar y cyd ar draws y pedwar heddlu. Mae'r cynnyrch yn gwbl ddwyieithog a gellir ei integreiddio â'r model fetio. Cynhaliwyd asesiadau ansawdd ar bob integreiddiad a dangoswyd nad oes unrhyw effeithiau andwyol wedi'u creu. Dywedodd TH y byddai ail werthusiad o effaith andwyol yn cael ei gynnal ar 8 Mai. Holodd y CHTh pa un ai a oedd hap samplu'n digwydd er mwyn sicrhau bod ceisiadau ar gyfer swyddi drwy'r systemau newydd yn cael eu sifftio'n gywir. Dywedwyd wrtho fod ymgynghorwyr yn cael eu cyflogi i fonitro ymgeiswyr ochr yn ochr â'r broses sifftio. Gofynnodd y PGC/DD ble'r oedd y data monitro'n cael ei graffu oherwydd byddai angen i brif swyddogion ddangos eu bod nhw'n defnyddio'r data er mwyn hysbysu penderfyniadau a gwaith ar y cyd. Dywedodd TH fod gan arweinwyr Adnoddau Dynol (AD) holl heddluoedd Cymru fynediad at adroddiadau a data sy'n ymwneud â gwaith ar y cyd y gellir ei fwydo i brif swyddogion.

Holodd y PS pa un ai a allai adran recriwtio SCHTh ddefnyddio'r model e-recriwtio a ddatblygwyd. Dywedodd TH fod SCHTh eraill wedi dangos diddordeb a bod modd cyflawni hyn yn gymharol hawdd. Adeiladwyd e-blatfform ar gyfer swyddogion gwirfoddol gan ddefnyddio cyllid trawsnewidiol o Gymru. Roedd hyfforddiant wedi'i safoni fel cymhwyster lefel 3 i blismona ar gyfer Fframwaith Cymwysterau Addysg Plismona.

**Cam Gweithredu: PS a TH i archwilio i e-recriwtio SCHTh.**

Trafododd y Bwrdd Ddadansoddiad o Amcanion yr Heddlu, sy'n penderfynu sut y mae materion yn cael eu codio ar gyfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA), gan nodi bod y pedwar heddlu wedi bod yn codio'u data ymadawyr o dan godau data gwahanol yn y gorffennol. Mae timoedd cynllunio'r gweithlu wedi bod yn gweithio gyda CIPFA er mwyn symleiddio'r ffordd y mae codau'n cael eu rheoli, a bydd CIPFA'n defnyddio'u gwaith ar y cyd fel arfer gorau. Holodd y CHTh sut fyddai'r datblygiad hwn yn elwa'r heddlu ar lefel ymarferol, a rhoddwyd gwybod iddo y byddai cynllunio'r gweithlu ar gyfer Cymru'n haws unwaith y bydd data ar draws y wlad wedi'i godio yn yr un modd.

Holodd y PGC/DD a'r CHTh pa un ai a oedd AHEM yn ymwybodol o'r gwaith sy'n digwydd. Dywedodd TH nad oedd ei gwaith diweddar wedi cychwyn adeg archwiliad AHEM ym mis Hydref 2018. Mynegodd y CC bryderon ynghylch pa un ai a fyddai sgiliau unigryw unigolion yn cael eu colli pe bai'n haws i aelodau staff drosglwyddo rhwng heddluoedd. Dywedodd TH fod gan y wefan ar gyfer dechreuwyr newydd – sy'n medru cael ei integreiddio â systemau heddlu sefydledig megis iTrent – gwymplen â 250 o sgiliau fel bod modd i unigolion nodi eu sgiliau eu hunain, sy'n sicrhau nad yw sgiliau sy'n seiliedig ar y gwaith yn cael eu

colli rhwng heddluoedd. Pwysleisiodd y PGC/DD bwysigrwydd cynnwys y gwaith a chanfyddiadau yn archwiliad nesaf AHEM.

Diweddarodd TH y BP ynghylch nifer o’i phrosiectau, a fydd yn cefnogi cydweithio rhwng heddluoedd Cymru, gan gynnwys gwella’r system fetio Core-Vet, a fydd yn galluogi swyddogion i drosglwyddo rhwng heddluoedd heb wiriadau fetio ychwanegol. Bydd Core-Vet hefyd yn cadw data am 6 mlynedd, a fydd yn galluogi heddluoedd i wirio am achosion mynych o gamweddau ymysg swyddogion. Dywedodd TH na fydd angen ail-fetio swyddogion mwyach.

Roedd y PGC/DD a’r CHTh yn fodlon â’r gwaith sy’n digwydd, fodd bynnag, dywedon nhw ei fod yn bwysig fod y diweddariadau’n cael eu cyflwyno i GPCG yn rheolaidd. Dywedodd TH mai’r cam nesaf yw anfon arolygon at arweinwyr pwnc er mwyn iddynt werthuso manteision y datblygiadau.

**Cam Gweithredu: TH i roi adroddiadau diweddaru misol i Brif Swyddogion HDP ar weithgarwch cydweithio.**

**b) Y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol (FfLlC)**

Dywedodd y PS fod adolygiad cynhwysfawr o’r FfLlC wedi’i gynnal, ac o ganlyniad, dim ond mân adolygiadau sydd angen eleni. Mae’r ddogfen eisoes wedi’i hanfon at y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol a’r Cyd-bwyllog Archwilio, gyda sylwadau aelodau’n cael eu hystyried.

**Cam Gweithredu: Cyflwyno adroddiad eglurhaol mewn perthynas â’r FfLlC i’r PGC/DD a’r PG erbyn 29 Mawrth gyda golwg ar gael y PG i gytuno i gefnogi’r fframwaith erbyn 1 Ebrill 2019.**

Cafwyd trafodaeth fer ynghylch adolygiad o’r Uned Cyswllt Heddlu a Thîm Cydweithredu Cymru Gyfan.

**Cam Gweithredu: Y CHTh i ofyn am ddiweddariad ar yr adolygiad o’r Uned Cyswllt Heddlu a Thîm Cydweithredu Cymru Gyfan o’r Cyfarfod Trawsbleidiol ar 27 Mawrth.**

**Cam Gweithredu: Y PS i ofyn am ddiweddariad ar yr adolygiad o’r Uned Cyswllt Heddlu a Thîm Cydweithredu Cymru Gyfan yng nghyfarfod y Prif Weithredwr a’r Dirprwy Brif Weithredwyr ar 26 Mawrth.**

**c) Gohebiaeth gan y Gweinidog dros Blismona a’r Gwasanaeth Tân.**

Cafwyd trafodaeth fer ynglŷn â'r ohebiaeth a phenderfynwyd y byddai SCHTh a HDP yn anfon ymateb ar y cyd.

**Cam Gweithredu: Y CC i lunio ymateb i'r ohebiaeth gan y Gweinidog dros Blismona a'r Gwasanaeth Tân.**

**ch) Cyllid**

Derbyniodd y Bwrdd bapur Cyllid gan y CC gyda'r ffigurau ar gyfer y flwyddyn hyd yn hyn, sy'n dangos amrywiad andwyol o £73,000 sy'n deillio o orwariant yr Heddlu o £350,000 a thanwariant SCHTh o £217,000. Dywedodd y CC fod rhai lliniariadau, gan gynnwys y dyfarniad cyflog, ymadawyr ychwanegol ym mis Ionawr, a £100,000 mewn ffioedd cyfreithiol a dalwyd ym mis Chwefror, sydd wedi arwain at ffigurau ychydig yn wahanol i'r rhai a ragamcanwyd ym mis Ionawr 2019.

Holodd y CHTh pa un ai a fyddai cynlluniau ar gyfer arbed arian yn 2018-19, megis atal ymgyrchoedd recriwtio tan fis Ebrill 2019, yn arwain at lif o gostau ym mis Ebrill, ond dywedwyd wrtho fod yr holl gostau a ragwelir wedi'u cynnwys yn y gyllideb sydd wedi'i darogan ar gyfer 2019-20. Dywedodd y PGC/DD fod gan bob daliwr cyllideb fwy o ymwybyddiaeth o'u harferion gwario o ganlyniad i waith ar gyllid HDP.

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 26/03/2019 | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **I'w Symud yn ei Flaen gan** |
| **PB 2412** | **Y PGC/DD i adolygu tagfa tîm fetio HDP.** | **PGC/DD** |
| **PB 2413** | **Y CHTh i ymgysylltu â'r Cyfarwyddwr Ystadau mewn perthynas â dewisiadau cynaliadwy.** | **CHTh/CY** |
| **PB 2414** | **TH i fynd i gyfarfod GPCG yn y dyfodol.** | **CHTh/TH** |
| **PB 2415** | **PS a TH i archwilio i e-recriwtio SCHTh.** | **PS/TH** |
| **PB 2416** | **TH i roi adroddiadau diweddaru misol i Brif Swyddogion HDP ar weithgarwch cydweithio.** | **TH** |
| **PB 2417** | **Cyflwyno adroddiad eglurhaol mewn perthynas â'r FfLIC i'r PGC/DD a'r PG erbyn 29 Mawrth gyda golwg ar gael y PG i gytuno i gefnogi'r fframwaith erbyn 1 Ebrill 2019.** | **PGC/DD** |
| **PB 2418** | **Y CHTh i ofyn am ddiweddariad ar yr adolygiad o'r Uned Cyswllt Heddlu a Thîm Cydweithredu Cymru Gyfan o'r Cyfarfod Trawsbleidiol ar 27 Mawrth.** | **CHTh** |
| **PB 2419** | **Y PS i ofyn am ddiweddariad ar yr adolygiad o'r Uned Cyswllt Heddlu a Thîm Cydweithredu Cymru Gyfan yng nghyfarfod y Prif Weithredwr a'r Dirprwy Brif Weithredwyr ar** | **PS** |

| | | |
|---|---|---|
| | **26 Mawrth.** | |
| **PB 2420** | **Y CC i lunio ymateb i'r ohebiaeth gan y Gweinidog dros Blismona a'r Gwasanaeth Tân.** | **PS** |